### *Diddymu Caethwasiaeth*

Fis Mawrth 1807, o ganlyniad i ymdrechion glew William Wilberforce, fe basiwyd deddf i geisio roi terfyn ar gaethwasiaeth. Trefnwyd nifer o ddigwyddiadau eleni i gofio'r achlysur, yn eu plith y canlynol yn yr ardal hon:

8 Medi –3 Tachwedd: 'Traed mewn Cyffion: Cymru a Chaethwasiaeth', 200 mlwyddiant diwedd y fasnach gaethweision – arddangosfa arbennig yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Ar agor: Llun–Sadwrn, 10.00–5.00

9 a 10 Hydref: Dangosir y ffilm *Amazing Grace*, gydag Ioan Gruffudd yn y brif ran, yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, am 7 o'r gloch. Tocynnau £3

26 Hydref: 'Cymru a Chaethwasiaeth', gan Dr Wyn James, Caerdydd, yn festri'r Garn am 7.30 o'r gloch (Cymdeithas Lenyddol y Garn)

### *Gwyl Ffilm Fflics*

Fflics
www.fflics.co.uk
Clasuron Sgrin Cymru
Wales Screen Classics

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
a Chanolfan y Celfyddydau,
Aberystwyth

25–28 Hydref

Clasuron o gyfnod aur y sgrin arian, gan gynnwys *The Proud Valley*, gyda Paul Robeson yn y brif ran

Swyddfa Docynnau: 01970 632548 / 01970 623 232
www.fflics.co.uk

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 9 Rhagfyr i:


Mr Dewi G Hughes
Bod Hywel
(828026)
dewighughes@lineone.net

Mrs Marian B Hughes
14 Maes y Garn
(828662)
marian_hughes@btinternet.com


Babell Y Garn Gerlan Madog Nasareth Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Nasareth Madog Gerlan Y Garn Babell


Cyfres newydd, rhif 1 Hydref 2007




*Rhoddwn iti foliant glân,*
*diolch, Arglwydd, yw ein cân.*


***Gweinidog***
Y Parchedig Wyn Rhys Morris,
47, Glan Ceulan, Penrhyn-coch,
Aberystwyth, SY23 3HF
e-bost: morris@coedlas.plus.com
(01970 820920)

***Ysgrifennydd***
Mr Eddie Jenkins,
Eryl,
Llandre
Bow Street
(01970 828147)

# GAIR GAN Y BUGAIL



Annwyl ffrindiau

Un o'r cerrig milltir pwysicaf yng nghalendr yr eglwys yw'r Ŵyl Ddiolchgarwch. Fe'i cynhelir gan amlaf yn ystod mis Hydref ac hyd yn oed yn nyddiau'r trai deil i fod yn hynod boblogaidd. Os nad oes amser i oedfa arferol ar y Sul, rhaid dal y cwrdd diolchgarwch. Rhydd yr Ŵyl gyfle i bawb ohonom gydnabod daioni'r Hollalluog fel ein Crëwr a'n Cynhaliwr. Duw yw ffynhonnell pob cynhaliaeth. Ef yw Arglwydd y greadigaeth a phopeth sydd ynddi. Arweiniodd genedl Israel gynt i fewn i wlad a oedd yn llifeirio o laeth a mêl ac iddo Ef yr oedd diolch y Salmydd am fod "porfeydd yr anialdir yn diferu, a'r bryniau wedi eu gwregysu â llawenydd; y mae'r dolydd wedi eu gwisgo â defaid, a'r dyffrynnoedd wedi eu gorchuddio ag ŷd. Y maent yn bloeddio ac yn gorfoleddu" (Salm 65: 12, 13).

Wrth i ni ddathlu'r Ŵyl Ddiolchgarwch eleni a chydnabod daioni Duw, y mae gennym, yn wir, le i ddiolch. Ond pa mor ddidwyll a chynhwysfawr fydd ein diolch? Fe ddywed yr Apostol Paul yn ei lythyr cyntaf at y Thesaloniaid, "Ym mhob dim rhowch ddiolch, oherwydd hyn yw ewyllys Duw yng Nghrist Iesu i chwi" (1 Thesaloniaid 5:18).

Ac wrth gynghori Cristnogion newydd Effesus ynglŷn â sut y dylent fyw, dywed yr Apostol ymhellach, "Diolchwch bob amser am bob dim i Dduw y Tad yn enw ein Harglwydd Iesu Grist" (Effesiaid 5:20). Rhoi diolch i Dduw <u>bob</u> amser? Ac am <u>bob</u> peth? Onid yw Duw yn gofyn gormod oddi wrthym? O, mi fyddwn yn barod iawn i ddiolch iddo yn awr ac yn y man, am y pethau da yr ydym yn eu mwynhau mewn bywyd, megis ein bendithion a'n cysuron, ond beth am y profiadau anodd a ddaw i'n rhan? Sut allwn ni mewn difrif ddiolch i Dduw am y rheiny? Beth os bydd yr ergyd yn disgyn ac yn ein gadael mewn cystudd blin weddill ein bywyd? Beth os daw stormydd bywyd i chwythu arnom? Anodd fydd diolch wedyn!

### *Y Gerlan*

Braf ydy cael cyfrannu i gylchlythyr yr ofalaeth.

Un o eglwysi lleiaf yr ofalaeth yw'r Gerlan, ac rydym yn ffodus iawn i Eglwys Annibynnol y Morfa ymuno â ni yn 1990 i gyd-addoli. Mae'r uniad wedi profi i fod yn un bendithiol a llwyddiannus a chydweithiwn fel un. Cawn ein bugeilio gan ddau weinidog: Y Parchg Richard Lewis (A) a'r Parchg Wyn Rhys Morris (P). 'Hen law' ydy Mr Lewis yn yr ardal, a braf ydy rhoi croeso twymgalon i Mr Morris i'n plith. Gweddïwn am fendith y Nef ar ei weinidogaeth, a mawr obeithiwn y bydd gyda ni am flynyddoedd lawer. Ar yr un pryd, croesawn ei briod, y Barchedig Judith Morris, a gweddïwn am fendith ar ei gweinidogaeth hithau yn eglwysi Bedyddiedig Penrhyn-coch ac Aberystwyth.

Mae cydweithio ag eglwysi eraill y pentref wedi bod yn rhan bwysig o'n gweithgareddau a braf ydy cael cwmni Eglwys Sant Mathew ac aelodau'r eglwys Gatholig. Down at ein gilydd i gyd-addoli adeg cyfarfodydd dechrau'r flwyddyn, gŵyl Ddewi, y Pasg, diolchgarwch a Chymorth Cristnogol, ynghyd â'r bore coffi tuag at Gymorth Cristnogol.

Sawl blwyddyn yn ôl roedd 'na gymdeithas ddiwylliannol gref o fewn yr eglwys, ond fel ym mhobman y dyddiau hyn, mae 'na drai. Newidiwyd yr enw i Gymdeithas Gymraeg y Borth a'r ardal – hyn i geisio cadw'r dystiolaeth Gymraeg a Chymreig mewn pentref sydd mor Seisnigaidd. Cawn siaradwyr diddorol a da iawn; felly, os oes unrhyw un ohonoch chi, ddarllenwyr y golofn hon, ag awydd ymuno â ni, bydd croeso mawr yn eich disgwyl yr ail nos Fercher o Hydref hyd fis Mawrth am 7 o'r gloch yn y festri. Y tâl yw £1 y mis. Uchafbwyntiau'r tymor ydy'r swper gŵyl Ddewi a'r trip ganol Mehefin.

Rheidrwydd arnom ydy anfon ein cofion cynhesaf at ddwy sy'n methu dod i'r oedfaon oherwydd llesgedd, sef Mrs Dora Richards (ein hysgrifennydd) a Mrs Camwy Williams, heb anghofio Mr Tony Turner.

Nodyn o ddiolch nawr i'n horganyddes, sef Eurgain Rowlands. Yn wir, mae'n 'gwneud i'r organ siarad' drwy baratoi yn drwyadl cyn pob oedfa. Mae'r organ yn un arbennig gan inni fod yn ffodus iawn o fedru pwrcasu organ y diweddar Mr W Llewelyn Edwards. Mae ein dyled yn fawr iawn i Carys, merch Mr Edwards, am ei charedigrwydd a'i chydweithrediad.

Diolch yw ein gair olaf hefyd, a hynny i Mr John Rees, y trysorydd, am ei waith yn gofalu mor gydwybodol am y llyfrau.

Dyddiad ein Cyfarfod Diolch: nos Iau, 11 Hydref 2007, am 7 o'r gloch. Gobeithir trefnu lluniaeth i ddilyn yr oedfa.

*Tegwen Pryse*

***Trip Cymdeithas Gymraeg y Borth***

Roedd pob proffwyd tywydd wedi rhag-weld diwrnod ofnadwy o wlyb a diflas gogyfer â dydd Iau, 28 Mehefin, felly cawsom ein siomi ar yr ochr orau o weld awyr las a bore sych pan gychwynnodd y trip dirgel blynyddol ei daith.

Tua'r gogledd y trodd trwyn y bws, gan anelu am Lanuwchllyn ac i gyfeiriad yr Hen Gapel. Cawsom gyfle i weld y tu mewn i'r capel hynod hwn a chael tipyn o'i hanes gan y Parchg W J Edwards, trefnydd y trip, ac yna ymweld a'r Tŷ Capel drws nesaf. Fan hyn roedd croeso yn ein disgwyl gan y perchenogion – Llew a Wendy – a gwledd i'r llygad yn ogystal ag i'r stumogau.

Symud ymlaen wedyn a mynd drwy bentref Llanuwchllyn a gweld cartref Syr Ifan a hanes y Welsh Not bondigrybwyll ac ymhen ychydig aros wrth fynwent Llanycil a chael cyfle i weld beddau enwogion megis Thomas Charles, Beti Cadwaladr a Bob Tai'r Felin.

Cafwyd orig fach o seibiant o'r teithio yn y Bala a chyfle i bawb wneud fel a fynno cyn cychwyn drachefn i gyfeiriad Llyn Celyn, a gweld mannau diddorol eraill megis Carreg Gladdfa'r Crynwyr ar ein ffordd drwy Gwm Prysor ac am Drawsfynydd. Erbyn hyn medrem gredu dyn y tywydd achos roedd y glaw wedi cyrraedd yn go iawn!

Yn Nhrawsfynydd croesawyd ni i Lys Ednowain, sef y ganolfan treftadaeth sydd wedi ei sefydlu yng nghanol y pentref. Croeso mawr a phaned yma eto. I'r rhai ohonom nad oedd wedi bod yn yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn, erioed o'r blaen – dyma ein cyfle. Oherwydd y glaw trwm nid oedd modd cerdded y daith i fyny, ond na phoener, roedd gan Judith Morris gar i gario rhai ohonom a daeth un o drigolion y Traws yn ei 4x4 i fynd â'r gweddill. Dyna brofiad bythgofiadwy i gael yr hanes a gweld y Gadair Ddu gan nai i Hedd Wyn – Gerald Evans.

I ddiweddu ein diwrnod bendigedig aeth y bws â ni i lawr dros Dal-y-llyn ac at Westy Tyn y Cornel i fwynhau pryd ardderchog o fwyd.

Mae diolch y teithwyr yn fawr i Rhys, gyrrwr y bws; i W. J. a Gwenda am yr holl drefnu gofalus; i Llew a Wendy am agor eu cartref i ni; i Gerald Evans am gynnau tanllwyth o dân yn groeso i ni yn yr Ysgwrn, ac i Mair Jones a staff Tyn y Cornel am y wledd i orffen diwrnod pleserus iawn.

Yn hyn o beth dylem gofio fod yna ryw rym arbennig yn y weithred o ddiolch. Calon obeithiol yw'r galon ddiolchgar bob amser. Am hynny, os peidiwn â rhoddi diolch yn yr ysbryd priodol fe fyddwn yn siŵr o gael ein llethu gan ofidiau blin ac fe leddir ein hysbryd yn fuan. Daw i'm cof y stori am ryw ddyn a ddaeth o hyd i'r ydlan lle cadwai Satan ei hadau dinistriol yn barod ar gyfer eu plannu yng nghalonnau pobl ar y ddaear. Sylwodd y dyn fod gan Satan un math o hedyn a oedd yn llawer mwy niferus na'r gweddill. Hedyn anobaith a digalondid oedd hwnnw. Clywodd y dyn y gellid gwneud i'r hedyn hwn dyfu ymron ymhobman. Ond pan holwyd Satan ynglŷn â hynny, bu'n rhaid iddo gyfaddef yn groes i'w raen fod yna un man lle na allai hyd yn oed yr hedyn anobaith ffynnu a ffrwytho. "O, a ble mae'r lle hwnnw?" gofynnodd y dyn yn eiddgar. Atebodd Satan ef yn drist a thrwmgalon, "Yng nghalon y person diolchgar."

Y mae Duw am i ni roi diolch ym mhob dim ac ar bob amgylchiad, nid oherwydd ei fod yn farus, nid oherwydd y bydd yn teimlo'n well o dderbyn ein moliant, ond am y bydd y weithred o ddiolch yn fendith i ni ac yn fendith i'r byd a greodd. Ei ddymuniad Ef yw i ni gofio am yr hyn a wnaeth trosom ar Galfaria fel na fydd yn rhaid i ni ofni pan fydd angen ei gymorth Ef arnom. Felly, rhown ddiolch iddo yn ein cân a'n gweddi yr Hydref hwn fel y bydd ein bywydau oll yn llawn goleuni a gobaith, a'n gweithredoedd yn llawn cariad a daioni. Yng ngeiriau emyn y Parchedig Harri Owain Jones:

I Ti, ein Duw, diolchwn
Am holl fendithion byw;
Tydi wyt Dduw'r Creawdwr,
A thad holl ddynolryw.
Bendithiaist ni â'th gariad,
O'r dechrau hyd yn awr;
A rhoddwn ni ein bywyd
I garu teulu'r llawr.



Yr eiddoch yng ngwaith y Deyrnas
Wyn Morris (Bugail)

“***OS MÊTS …***” yn cerdded ymlaen

Mae menter gyffrous ar gyfer ieuenctid gogledd Ceredigion yn tyfu. Fel y gŵyr aelodau eglwysi’r ofalaeth, ysgogwyd y syniad i geisio sicrhau parhad cyswllt ieuenctid â’u capel neu eglwys drwy gyd-gymdeithasu. Ymledodd y syniad ac esgor ar gydweithio ar draws enwadau yn y cylch … yn Anglicaniaid, yn Fedyddwyr, yn Annibynwyr a Phresbyteriaid o Gapel Seion i Daliesin ac o Gwm Rheidol i’r Borth ... gan bwysiced y credir mewn ymgyrchu i hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol a Christnogol ymhlith ieuenctid yr ardal.

Eisoes dros gyfnod yr haf, dan arweiniad Glyn Saunders Jones, sefydlwyd gwethgareddau amrywiol, cyfoes a deniadol a oedd yn apelio at ein hieuenctid dan faner ***“OS MÊTS …”***. Daeth dros 20 o bobl ieuainc i gymryd rhan yn y gweithgareddau.

O ganlyniad i’r llwyddiant hwn fe lansir gweithgareddau 2007–2008 **nos Fercher, 10 Hydref, yn festri Capel y Garn, Bow Street, am 7 o’r gloch**, dan arweiniad Siôn Evans o Goleg y Bala.

Felly, dyma gyfle i ieuenctid ein heglwysi ymuno yn y fenter. Lledaenwch yr wybodaeth iddynt. Dewch, cefnogwch. Dewch i gymdeithasu.

Mae Pwyllgor yn cael ei ffurfioli dan gadeiryddiaeth ein Bugail, y Parchedig Wyn Rhys Morris, a gwerthfawrogir cefnogaeth caredigion yr achos. Ond byddem hefyd yn falch o gael rhagor o wirfoddolwyr a fyddai’n fodlon cefnogi gwahanol weithgareddau.

Am ragor o wybodaeth, cysyllter â Dewi Hughes (01970 828026).

***Cyfarfod Swyddogion yr Ofalaeth***

Nos Lun, 19 Tachwedd, am 7 o’r gloch yn Festri’r Garn

Apelir am gynrychiolaeth deilwng o holl eglwysi’r ofalaeth

Yna, roedd yn bryd troi trwyn y bws am y Mynydd Du, pasio Cefnbrynbrain, cartref yr Athro Derec Llwyd Morgan, a chroesi o Frynaman i Langadog, gan ryfeddu at y golygfeydd godidog o ben y mynydd. Erbyn hyn, roedd pawb yn disgwyl yn eiddgar am y swper oedd o’n blaenau yn Llanymddyfri, ac yn wir, ni chawsom ein siomi. Taith hir, ond pleserus iawn, a ninnau unwaith eto wedi bod yn lwcus i gael tywydd hyfryd.

Llawer o ddiolch i Mrs Myfanwy Rowlands am drefnu diwrnod mor ddiddorol.

*  *  *

Ddydd Sul, 19 Awst, bedyddiwyd Edward Ellis Rowlands, mab Robert a Corinna, ac ŵyr cyntaf Roy a Lisa, Tynohir, gan ein cyn-weinidog, y Parchedig R W Jones. Y fam fedydd oedd Sarah, chwaer Robert, a David Mills yn dad bedydd.

Llongyfarchiadau i Brian a Beti Wyn Davies, Rhos, ar enedigaeth eu hwyres gyntaf, Beca Angharad, ym Mhen-y-lan, Caerdydd, merch i Siwan ac Ian, a chwaer fach i Ifan Prys.

Trosglwyddodd Mrs Edna Thomas, trysorydd Sasiwn Chwiorydd y De, siec o £15,000 ar ran y Sasiwn i’r Parchg D. Andrew Jones, ysgrifennydd Bwrdd y Genhadaeth. Dyma ran o’i lythyr o ddiolch: ’Carwn longyfarch y chwiorydd yn frwdfrydig iawn ar lwyddiant eu hymdrechion eleni eto. Does dim amheuaeth nad yw gwaith y chwiorydd, nid yn unig drwy eu casgliadau, ond hefyd drwy eu gweithgarwch lleol, yn disgleirio o fewn ein Cyfundeb y dyddiau hyn. Mae’r patrwm o ddycnwch ac ymroddiad ar ran y chwiorydd yn ysgogiad a chalondid i bawb ohonom. Diolch yn fawr iawn i chwi, Chwiorydd y De, am ddal ati eto eleni a llwyddo mor rhyfeddol. Gallaf eich sicrhau bod Bwrdd y Genhadaeth yn gwerthfawrogi yn fawr eich ymrwymiad a’ch ymdrechion.’

### *Rehoboth*

Bore Sul, 12 Awst, cychwynnodd deg ohonom ar ein taith flynyddol ac, fel arfer, ein gyrrwr medrus a gofalus oedd Brian Davies. Eleni, trefnwyd taith i dde Cymru, gan ymweld â rhai llefydd diddorol ar hyd y ffordd. I lawr â ni i Dregaron ac i fyny ar hyd ffordd Abergwesyn a heibio i Soar y Mynydd; ymlaen drwy'r goedwig i Randirmwyn ac ar hyd y lonydd cul i Lanymddyfri, gan sôn mai yma y claddwyd William Williams, Pantycelyn.

Ar ôl seibiant i gael paned, aeth y bws â ni i Grai a chyn hir dyma gyrraedd Craig y Nos, lle cawsom beth o hanes y gantores enwog Madam Adelina Patti.

Yna, cafodd y criw deithio i lefydd na fuont ynddynt erioed o'r blaen: croesi ar draws y rhostir ar flaen y cymoedd, lle, yn ôl y chwedl, y cipiwyd y bachgen a ddaeth yn ddiweddarach yn Badrig Sant, a throi am Gwm Dulais, Banwen, Yr Onllwyn, Blaendulais, Y Creunant, ac i Amgueddfa Gwaith Glo Cefn Coed, y pwll glo dyfnaf yn y byd ar un adeg.

Wedi bwyta'n cinio, ymlaen â ni i Aberdulais a chofio bod Turner, yr arlunydd enwog, wedi paentio sawl llun o'r rhaeadr sydd yma. Yng Nghastell-nedd trodd y bws a dechrau ar y daith i Bontardawe i ymweld â man geni Gwenallt yn Wesle Row, a darllen y plac ar y wal o dan y tŷ. Ganwyd sawl bardd enwog arall yma, yn eu plith Bryan Martin Davies a Dafydd Rowlands. I fyny'r cwm â ni, gan gofio am Ben Jones, Panteg, yr emynydd a gyfansoddodd y garol 'O Dawel Ddinas Bethlehem', nes cyrraedd Ystradgynlais. Yno, cawsom hanes y blynyddoedd a dreuliodd y Parchedig Owen Williams, tad Beti Wyn, yn weinidog Capel Sardis. Gan ein bod mor agos, rhaid oedd troi i Gwmgïedd a chofio mai yma y ganwyd y cerddor J T Rees, a hynny yn Llwynbedw – ac, wrth gwrs, rhaid oedd cael cip ar 'Primrose Row' *Licoris Alsorts*.





## TUDALEN Y PLANT

### PICNIC

Dewch am bicnic. Dyma beth sy yn y fasged:

Tair (Ioan 6: 13)

Pecyn o (Eseia 7: 15)

Darn o (Genesis 9: 4)

Un (I Samuel 17: 18)

Pot o (Barnwyr 14: 8)

Un (Eseia 1: 8)


Pwys o (Diarhebion 25: 11)



Pwys o (Genesis 40: 10)

Pecyn o (Caniad Solomon 6: 11)

Potelaid o (Deuteronomium 14: 21)



Mae hi'n fwydlen braidd yn od, ond os chwiliwch chi am yr adnodau yn y Beibl, fe welwch fod pob un ohonyn nhw'n sôn am fwyd neu am ddiod. Sgrifennwch enwau'r bwydydd hyn i lawr i gwblhau'r fwydlen.

Mwynhewch eich picnic!

O hyn ymlaen bwriedir cyhoeddi tudalen ar gyfer y plant ym mhob rhifyn o'r Cylchlythyr. Fel arfer, cynhwysir cystadleuaeth a fydd yn agored i holl blant eglwysi'r ofalaeth. **Anfonwch eich atebion at y Gweinidog, drwy law eich athro/athrawes Ysgol Sul os dymunwch, erbyn 31 Hydref. Fe fydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i'r ateb cyflawn cyntaf a ddaw allan o'r het. Cofiwch ysgrifennu eich enw ar y dudalen.**

*Cwpan Rygbi'r Byd*



Mae'r gystadleuaeth fawr wedi cyrraedd ei hanterth erbyn hyn ac os ydych wedi eich taclo gan rygbi y mae yna lawlyfr poced arbennig wedi'i gyhoeddi gan Gyhoeddiadau'r Gair ar gyfer ieuenctid i ddathlu'r achlysur. Teitl y llyfr yw 'Codi'r Cwpan' ac y mae'n adnodd efengylu safonol mewn unrhyw genhadaeth rygbi. Bu'r Gweinidog yn ei ddosbarthu yn ddiweddar yn Ysgol Rhydypennau. Yn ogystal, derbyniodd ysgolion Sul Capel Seion a Chapel y Garn gopïau. Neges Gristnogol a gyflwynir yn y llawlyfr, sy'n cynnwys yr amserlenni ar gyfer y gemau a nifer o hanesion am Gristnogion sy'n chwarae rygbi. Dyma flas ohono: '**Ble mae dy awch? Beth sy'n dy yrru? Beth yw dy gymhelliad?'** Cefaist dy greu gyda'r awch i ddarganfod pwrpas i dy fodolaeth mewn bywyd ... Ond, tra bod yna lawer o bethau yn y byd sydd yn addo llenwi'r gwacter sydd y tu fewn, yn y pen draw, y mae'r gwacter yn dal yna. Wyt ti wedi meddwl, '*Mae yna rywbeth arall, rhaid bod yna fwy na hyn?*' Yn ôl Iesu, '*Yr wyf fi wedi dod i chi gael profi bywyd yn llawn.*' Dim ond wrth i ti ddod at Iesu y medri di adnabod perthynas â Duw, a chychwyn byw go iawn. Dyma'r Duw sydd wedi dy greu, ac mae byw i'r eithaf yn dod o'i adnabod Ef.

***Grŵp Help Llaw***



Croeso i chi ymuno â'r Grŵp Help Llaw yn festri'r Garn bob prynhawn Mercher (oddieithr y cyntaf yn y mis pan fydd y Cwrdd Chwiorydd) rhwng 2.30 a 3.30 o'r gloch. Trowch i mewn am gwmni a phaned, ac ymuno yn y gweithgareddau os dymunwch hynny.

Yn ystod yr wythnosau nesaf, byddwn yn cefnogi Tŷ Hafan, ein ffrindiau yn Lithuania a Bosnia, ac Operation Christmas Child. Gallwch ein helpu trwy gasglu stampiau a bocsys sgidiau tua 12 modfedd.

Shân (828268) Bethan (611502)




Daeth tyrfa dda i Fethlehem, Llandre, nos Wener, 6 Gorffennaf i fwynhau barbeciw blynyddol y Garn – diolch i'r pwyllgor gweithgar dan arweiniad Alan Wynne Jones am drefnu noson ddifyr o gymdeithasu, ac yn arbennig i Dwysli Peleg-Williams a'i chriw am baratoi'r wledd. Diolch hefyd i Fanc Barclays am ei nawdd hael.



***Y Garn***

Dydd Sadwrn, 14 Gorffennaf, teithiodd y plant, eu rhieni, athrawon yr ysgol Sul a chyfeillion i Gaer i ymweld â'r Sŵ. Braf oedd cael cwmni'r Gweinidog, y Parchedig Wyn Morris, a'r Barchedig Judith Morris hefyd. Cafwyd diwrnod gwych ac roedd blas arbennig ar y sglodion yn y Trallwm ar y ffordd adre. Diolch i Lowri am drefnu.

Bore Sul, 15 Gorffennaf, bedyddiwyd Gerwyn Thomas Jones, mab Alun a Siân a brawd William, Caergywydd, gan ein Gweinidog, y Parchedig Wyn Morris. Dymunwn bob bendith i chi fel teulu.



Mewn gwasanaeth arbennig a drefnwyd gan ein Gweinidog, bore dydd Sul, 29 Gorffennaf, cafwyd cyfle i fyfyrio ar erchyllterau'r fasnach gaethweision a'r ymdrechion a wnaed i'w dileu.

Cyfeiriwyd yn arbennig at ddeddf Diddymu Caethwasiaeth 1807 a hefyd at gyfraniad Martin Luther King i'r ymgyrch dros hawliau i bobl groenddu. I gloi, fe'n hatgoffwyd o'r ffaith fod llawer o bobl yn parhau yn 'gaeth' heddiw er gwaethaf yr holl ymdrechion hyn.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Catrin a Phil ar eu priodas ar 7 Gorffennaf, ac i Manon a Gwion, a briodwyd ar 1 Medi.

Llongyfarchiadau calonnog iawn hefyd i Vernon Jones ar ei lwyddiant yn ennill y wobr gyntaf am hir a thoddaid ar y testun 'Clawdd' yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint a'r Cyffiniau.

Dymuniadau gorau i Dewi Hughes ar ei ymddeoliad o'i swydd fel Cyfarwyddwr Cynorthwyol yn Adran Addysg Ceredigion ddiwedd Awst.

*Dosbarth Beiblaidd*



Yn ddiweddar cychwynnwyd Dosbarth Beiblaidd yn yr Ofalaeth. Dilynir Maes Llafur yr Ysgol Sul ac yn hytrach nag astudio llyfr neu lyfrau penodol o'r Beibl, fe'n cyflwynir i thema, sef 'Byw y Ffydd'. Paratowyd gwerslyfr ar gyfer y maes yn cynnwys esboniad ar gyfres o astudiaethau Beiblaidd sy'n canolbwyntio ar fyw y ffydd Gristnogol. Canolbwyntir ar bedair adran o'r Ysgrythur, sef penodau cynnar Efengyl Luc, detholiad o Lyfr yr Actau a'r Llythyr at y Philipiaid ynghyd â chyfres o Salmau. Y canlyniad yw y cawn gipolwg ar fywyd y ffydd o bedwar safbwynt gwahanol. Y mae **croeso cynnes i chi ymuno â'r Dosbarth** a gynhelir yn wythnosol yn un o gapeli'r ofalaeth. Os nad ydych yn siŵr o'r lleoliad, neu'r amser a'r dyddiad, cysylltwch ag ysgrifennydd eich eglwys neu â'r Gweinidog, neu ewch i wefan y Garn (www.capelygarn.org).




Y Parchedig Ddr John Tudno Williams yn dadorchuddio cofeb i Thomas Jones, y cenhadwr cyntaf i Fryniau Casia

### *Hedfan*

Hebogiaid ffyrnig yn hollti'r awyr
Gan sgimio'r copaon a'u stŵr
Mor chwim fel nad yw Llyn Conach yn dala
Eu llun ar deledu y dŵr.

Ymlaen â'u cyrch gan esgus ymosod
Ar Fethel, Moriah a'r Garn,
A throi yn eu hôl fel rhai a gynhyrfwyd
I fomio Bethania yn sarn.

Ninnau fel cywion y nythod sanctaidd
A'n pennau yn ddwfn yn ein plu
Heb fagu adenydd i herio'r felltith
O glydwch diogel y Tŷ.

Plygwn ein gliniau yn ddefosiynol
I angylion y gofod draw,
Ein llygaid yn dynn rhag gweld yn ein gweddi
Y dwylo sy'n estyn mewn braw.

Rydym yn ddiolchgar iawn i Vernon Jones am ganiatâd i gyhoeddi'r delyneg rymus hon, a roddwyd yn y dosbarth uchaf yng nghystadleuaeth y delyneg yn Eisteddfod Genedlaethol Sir y Fflint 2007. Dyma farn y beirniad, Cen Williams:

'Mae rhywbeth yn eithaf clyfar yn y delyneg hon, sy'n agor gyda'r "hebogiaid ffyrnig" yn gwibio heibio Llyn Conach ger Tal-y-bont yng Ngheredigion ond mae'r hebogiaid yn troi'n symbol o'r digrefydd neu'r difater sy'n cau capeli. Yn y cyfamser, rydym ninnau'r crefyddwyr fel cywion "a'n pennau yn ddwfn yn ein plu", heb allu gwneud dim ond "plygu gliniau'n ddefosiynol". Mae ein llygaid wedi eu cau mor dynn fel nad ydym yn gweld "Y dwylo sy'n estyn mewn braw". Fy ymateb cyntaf oedd mai dwylo Duw oedd y rhain er nad oes yma brif lythrennau, ond wedyn sylweddolais mai dwylo unrhyw rai sydd angen help sydd yma a bod y delyneg hon yn feirniadaeth arnom i gyd fel crefyddwyr. Llwyddodd y bardd hwn i gystwyo trwy delyneg. Camp yn wir!'

### *Seion*

Ar fore Sul, 8 Gorffennaf, â'r Gweinidog, Y Parchedig Wyn Morris, yn gwasanaethu, bedyddiwyd Angharad Rhodd, merch Sian Owen a Mark Friswell, Pencefn, a chwaer i Gerallt, Geraint a Rhydian. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd iddynt fel teulu.

Brynhawn Sul, 15 Gorffennaf, daeth blwyddyn yr ysgol Sul i ben gyda Dawns Werin yng Nghanolfan Merlota Capel Bangor. Trefnwyd y prynhawn gan Eirlys ac Angharad Jones, Gwarallt, gydag Erwyd Howells yn galw yn fedrus a brwdfrydig gan berswadio pawb i ymuno. Braf iawn fu cael cymdeithasu mewn lleoliad gwahanol a newydd gan gadw'n heini yr un pryd. Cynhelir yr ysgol Sul am 11 o'r gloch ar fore Sul, ac mae croeso cynnes i blant ac oedolion.

Yn ystod mis Awst trefnwyd dwy bererindod leol. Brynhawn Sul, 12 Awst, cynhaliwyd oedfa fer dan ofal Eirlys ac Angharad Jones yng Nghartref Gofal Cwmcynfelin, Clarach, yng nghwmni Mrs Margaret Ann Evans, gynt o Frynawel, Capel Seion. A hithau bellach yn 99 oed, ymunodd yn frwd wedyn yn y drafodaeth gyda nifer o aelodau'r eglwys a'r dosbarth ysgol Sul ar anerchiad ymadawol y Llywydd, Y Parchedig John Tudno Williams, yn y Gymanfa Gyffredinol yn Llanbedr ddechrau Gorffennaf eleni. Cafwyd te a llawer sgwrs ddifyr cyn ymadael, a chroeso cynnes gan staff y Cwm

Brynhawn Sul, 19 Awst, aeth nifer ohonom yn bererinion hapus iawn i eglwys y Dyffryn, Goginan, gan dderbyn croeso cynnes y gynulleidfa yno. Dyma fam eglwys Olwen Jones, Awelon, Capel Seion. Estynnwyd croeso i bawb, gan ddiolch am y cyfle i ddod at ein gilydd, gan John Gwyn Jones. Cymerwyd rhan yn yr oedfa gan deulu Olwen: hithau, y merched Anwen ac Eleri, y brodyr John ac Arwyn yn canu nifer o weithiau gyda'i gilydd ac Eleri Roberts yn canu a chyfeilio bob yn ail. Cafwyd hanes y capel a'r gweinidogion a fu'n bugeilio yno'n ddiddorol iawn gan Gareth Jones, a gweddi gan John Roberts, tad Olwen.

Cyflwynodd Olwen yn fedrus a chryno dros ben hanes ei blynyddoedd cynnar yn y Dyffryn o'r cyfnod pan symudodd y teulu i lawr o sir Drefaldwyn i fyw ar fferm Penybryn hyd at adeg ei phriodi pan symudodd i Gapel Seion.

## Rhagfyr

*Blaenor y Mis: Alan Wynne Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: D Elystan-Morgan / Vernon Jones*

**2** Parchg Ddr John T Williams

5 Cyfarfod y Chwiorydd am 2 o’r gloch
‘Dathlu’r Nadolig’

**9** Bugail
Oedfa gymun yn y bore

**16** Oedfa Nadolig Plant yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail
am 10 o’r goch

21 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Hel Achau’, gyda Mrs Mary Thomas, Dolgelynen

**23** Gwasanaeth Nadolig yn y bore

25 Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail am 9 o’r gloch

**30** Parchg Tudor Davies am 10 o’r gloch

31 Gwylnos i groesawu’r Flwyddyn Newydd mewn mawl a myfyrdod
dan arweiniad y Bugail am 11.30 p.m.

### *Blodau i harddu’r Cysegr*

Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Nest Davies am ei holl lafur yn trefnu bod blodau’n harddu’r Allor bob Sul.

Nifer cymharol fychan o deuluoedd sydd erbyn hyn yn cyfrannu blodau, ac mae sawl bwlch ar y rhestr yn ystod misoedd Hydref–Rhagfyr.

Os hoffech chi gyfrannu, a fyddech cystal â rhoi eich enw ar y rhestr yn y cyntedd neu gysylltu â Nest, os gwelwch yn dda.

## Hydref

*Blaenor y Mis: Dewi G Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Marian B Hughes / D Bryn Lloyd*

3 Cyfarfod Diolchgarwch y Chwiorydd am 2 o’r gloch

**7** Parchg Ifan Mason Davies

10 Lansiad ‘Os Mêts ...’ gyda Siôn Evans, Coleg y Bala
Festri’r Garn am 7 o’r gloch
Croeso i ieuenctid o 11 oed i fyny

12 Cyfarfod Diolchgarwch Bethlehem, Llandre, am 7 o’r gloch
Pregethir gan y Barchedig Judith Morris

**14** Mr Adrian Morgan

17 Gweithgor Ieuenctid am 7 o’r gloch

20 Pwyllgor Cenhadol Chwiorydd Henaduriaeth Gogledd Aberteifi
Bore coffi tuag at apêl Hosbis (HIV/AIDS) Ysbyty Durtlang,
yn Neuadd y Waun, Waunfawr, 10–12 o’r gloch

**21** Oedfa Ddiolchgarwch am 10 o’r gloch
Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail
ym Methlehem, Llandre, am 5 o’r gloch
Casgliad arbennig yn y ddau wasanaeth at apêl Sierra Leone

26 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o’r gloch
‘Cymru a Chaethwasiaeth’ – Dr Wyn James, Caerdydd

27 Bore coffi at apêl Sierra Leone yn festri’r Garn, 10–12 o’r gloch

**28** Parchg Pryderi Llwyd Jones

***Cymdeithas Lenyddol y Garn***

Cadeirydd: Mrs Gaenor Hall

Is-gadeirydd: Mr D Bryn Lloyd

Ysgrifennydd: Mrs Mary Thomas

Trysorydd: Mrs Bet Evans

Aelodau'r Pwyllgor:

Mrs Elina Davies
Mrs Shân Hayward
Mrs Margaret Rees
Mr Erddyn James
Mr Vernon Jones
Mrs Brenda Williams
Mrs Janet Roberts
Mrs Mary Thomas
Mr Dewi Hughes

***Mynwent y Garn***

***Costau Tario'r Llwybrau***

| | £ |
|---|---|
| 2000 | 511.59 |
| 2002 | 2,889.25 |
| 2003 | 2,600.00 |
| 2004 | 3,466.50 |
| 2006 | 6,157.00 |
| 2007 | 1,639.12 |
| **Cyfanswm** | **£17,263.46** |

Mae pob llwybr nawr wedi ei dario. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth ariannol i'r gwaith trylwyr hwn, sydd wedi gweddnewid y fynwent, heb gost i'r capel.

Rydym yn ddiolchgar i Mr Owain Morgan am gymryd y cyfrifoldeb o dorri'r gwair deirgwaith y flwyddyn.

Gobeithiwn y bydd pawb ohonoch yn gofalu ar ôl beddau eich teuluoedd.

*Eddie Jones* (Goruchwyliwr y Fynwent)

**Tachwedd**

*Blaenor y Mis: D Elystan-Morgan*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Dewi G Hughes*

**4** Dr Rhidian Griffiths

*7* Cyfarfod y Chwiorydd am 2 o'r gloch
Margaret Rees yn sôn am ei hymweliad â China

**11** Parchg Lewis Wyn Daniel

14 Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch

16 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch
'Pawb a'i Farn' – panel o bobl ifanc

**18** Uno â'r Noddfa am 10 o'r gloch
Oedfa gymun dan arweiniad y Bugail am 5 o'r gloch

19 Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth yn festri'r Garn am 7 o'r gloch

24 Ffair Nadolig y Garn yn Neuadd Rhydypennau, 10–12 o'r gloch

**25** Parchg Wiliam Owen

**NODIADAU ARIANNOL**

**Cyfraniadau a chau'r llyfrau cyfrifon yn brydlon am 2007**

Diolch eto eleni i nifer fawr o'r aelodau am gyfrannu mewn da bryd. Serch hynny, fe ddaliwn i apelio ar i'r gweddill ohonoch dalu eich cyfraniadau yn fuan, ac yn sicr erbyn **30 Tachwedd**, os gwelwch yn dda. Mae prydlondeb y talu yn gwir hwyluso'r Trysorydd i gau llyfrau'r Eglwys yn gynnar yn Ionawr 2008.

Diolch yn fawr iawn am bob cefnogaeth.